Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

National Assembly for Wales
Health, Social Care and Sport Committee

Vaughan Gething AC
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

15 Chwefror 2018

Annwyl Vaughan

Canlyniad Caffael Contract Fframwaith GMS Systems

Yn dilyn canlyniad caffael diweddar Fframwaith GMS Systems ar gyfer darparu systemau clinigol Meddygon Teulu yn y dyfodol, mae nifer o feddygon teulu wedi cysylltu â'r Pwyllgor gan fynegi pryder ynghylch y bwriad i ddyfarnu'r contract i'r ddau gyflenwr a ddewiswyd – Vision Health Ltd a Microtest Ltd.

Mae pryderon wedi eu nodi mewn gohebiaeth â'r Pwyllgor ynglŷn â'r effaith y gallai'r newid mewn cyflenwyr ei chael o bosibl ar feddygfeydd meddygon teulu, ac o safbwynt rhan y meddygfeydd yn y broses gaffael. Mae'r Pwyllgor yn nodi o'r ddogfen 'Cwestiynau Cyffredin' sy'n cyd-fynd â'r llythyr canlyniad a gyhoeddwyd ar 29 Ionawr bod cynrychiolwyr GPC Cymru a Byrddau Iechyd yn gweithio gyda NWIS a Llywodraeth Cymru i nodi ffyrdd o gefnogi meddygfeydd trwy newid y system, gan gynnwys cymorth ariannol.

Yn dilyn yr ymatebion a roesoch i gwestiynau a ofynnwyd gan Aelodau yn y Siambr, nawr bod y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno her gyfreithiol yn erbyn y canlyniad wedi mynd heibio, byddwn yn ddiolchgar pe gallech roi diweddariad brys i ni ynghylch pa gymorth a ddarperir i feddygfeydd Meddygon Teulu, yn enwedig y rhai sydd eisoes wedi buddsoddi yn system Emis. At hynny, o ystyried lefel y pryder a nodwyd gan feddygon teulu, mae'r Pwyllgor hefyd yn gofyn am ystyried ymestyn y dyddiad cau erbyn pryd y bydd gofyn i feddygfeydd wneud dewis ynghylch i ba un o'r ddwy system y maent am drosglwyddo, sef Mai 2018.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
Seneddlechyd@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/Seneddlechyd
0300 200 6565

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddHealth@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddHealth
0300 200 6565

Edrychaf ymlaen at dderbyn eich ymateb cyn gynted â phosibl.

Yn gywir

Dr Dai Lloyd AC
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

Vaughan Gething AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Cabinet Secretary for Health and Social Services

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA - P/VG/0984/18

Dr Dai Lloyd
Cadeirydd
Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

15 Mawrth 2018

Annwyl Dai,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 15 Chwefror ynglŷn â'r broses gaffael ddiweddar ar gyfer systemau meddygon teulu, a'r effaith bosibl y bydd newid cyflenwyr yn ei chael.

Byddwch wedi gweld imi anfon llythyr at bob Aelod ar 27 Chwefror, yn amlinellu'r broses a'r penderfyniadau a wnaed. Rwyf hefyd yn amgáu'r llythyr ar y cyd oddi wrth Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru (NWIS), Cyngor yr Ymarferwyr Cyffredinol - Cymru, a Bwrdd y Rhaglen Rheoli Gwybodaeth a Thechnoleg; yn nodi'r rhesymau y tu ôl i'r penderfyniad a methiant EMIS Health Ltd i fodloni'r gofynion tendro.

Rwy'n cydnabod yr effaith bosibl ar bractisau sy'n defnyddio system EMIS Health Ltd ar hyn o bryd ac rwyf wedi ei gwneud yn glir y cynhelir proses i farnu pa gymorth sydd ei angen i sicrhau bod y newid yn digwydd yn esmwyth. Bydd sioeau teithiol yn cael eu cynnal ym mis Ebrill 2018 i roi gwybodaeth i bractisau er mwyn eu galluogi i benderfynu pa system i'w defnyddio o dan y contract fframwaith newydd: Vision neu Microtest. Byddai ymestyn y dyddiad targed i bractisau ddewis pa system i newid iddi yn effeithio ar y broses newid ac ar y gallu i roi cymorth i'r holl bractisau hynny. Bydd modd mynd i'r afael â phryderon penodol gan bractisau ynglŷn â pha system i newid iddi yn ystod y sioeau teithiol gan NWIS.

Mae hwn yn ddull o fynd ati ar y cyd i ddiffinio'r cymorth sydd ei angen ac mae practisau ledled Cymru wedi cael eu gwahodd i fod yn aelodau o'r Grŵp Cyfeirio i Randdeiliaid er mwyn pennu pa gymorth sydd ei angen. Rwy'n dal yn ymrwymedig i sicrhau bod y newid yn digwydd yn hwylus ar gyfer y practisau sydd wedi'u heffeithio.

Y bwriad yw y bydd y practisau meddygon teulu cyntaf yn newid neu'n uwchraddio i'r systemau newydd ym mis Ionawr 2019, ac y bydd y newid olaf wedi'i gwblhau erbyn mis Gorffennaf 2020. Trwy gydol y cyfnod hwn, hyd nes y bydd practis yn newid i system arall, gallwn sicrhau practisau meddygon teulu y bydd y systemau a'r gwasanaethau yn dal i gael eu cefnogi gan y cyflenwyr presennol o dan y trefniadau contract sy'n bodoli ar hyn o bryd.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Gobeithio bod hyn wedi'ch sicrhau ein bod wedi ymrwymo i wneud yn siŵr bod gan feddygon teulu y systemau sydd eu hangen arnynt i ddarparu gwasanaethau ac y byddwn yn rhoi'r cymorth angenrheidiol yn ystod y cyfnod pontio hwn.

Yn gywir,

Vaughan Gething AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Cabinet Secretary for Health and Social Services